**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru**

**Ebrill 2013**

Rwyf yn croesawu adroddiad y Pwyllgor, sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at bwyslais cryfach ar bolisi morol ar gyfer moroedd Cymru ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'r trefniadau a'r adnoddau y mae eu hangen i gyflawni.

Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weledigaeth y DU gyfan o foroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol, ac amcanion morol lefel uchel ar gyfer y DU gyfan i wireddu'r weledigaeth hon. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu rhaglen forol ar gyfer y pedwar maes gwaith cyd-ddibynnol allweddol, sef: cynllunio morol, rhoi Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ar waith, cadwraeth natur morol a thrwyddedau morol. Mae'r rhaglen forol yn cael ei llunio i weithio mewn ffordd integredig gyda meysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru, yn arbennig Pysgodfeydd, Ynni a Thwristiaeth, i gefnogi'i natur trawsbynciol.

Rydyn ni'n bwriadu cynnwys pob agwedd ar ein rhaglen forol mewn dull rheoli ar sail ecosystem, gan adlewyrchu gofynion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, ac fel yr amlinellir yn Natganiad Polisi Morol y DU gyfan sy'n rhoi'r fframwaith polisi strategol ar gyfer cynllunio morol. Bydd hyn yn ategu dull holistaidd Llywodraeth Cymru yn yr agenda *Cynnal Cymru Fyw,* gan gynnwys cynllunio a rheoli adnoddau naturiol.

Rydym yn bwrw ymlaen â'r adolygiad o'r trefniadau y mae eu hangen i gefnogi'r rhaglen forol, sy'n cynnwys edrych ar y blaenoriaethau yn y rhaglen a lefel yr adnoddau y mae eu hangen. Mae cyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru at yr adolygiad yn hollbwysig gan y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda nhw i ddarparu elfennau allweddol y rhaglen, gan ddylunio a chynhyrchu ar y cyd pan fo hynny'n briodol. Rydym hefyd yn adolygu'r ffordd orau o weithio gyda sefydliadau a rhanddeiliaid eraill (sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector) er mwyn cynyddu'r effaith.

Rydym yn bwriadu cwblhau'r adolygiad a rhoi'r trefniadau ar waith i gefnogi rhaglen forol integredig ac wedi'i blaenoriaethu erbyn diwedd 2013.

Mae fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

**<u>Ymatebion i argymhellion unigol yr adroddiad</u>**

***Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth uwch i bolisi morol yng Nghymru.***

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi ymrwymo i roi'r flaenoriaeth angenrheidiol i bolisi morol yng Nghymru er mwyn cyfrannu at foroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a

biolegol amrywiol drwy sefydlu rhaglen forol integredig sydd â strwythur ac adnoddau addas. Mae arnom angen cwblhau'r adolygiad o'r trefniadau ar gyfer cefnogi'r rhaglen yn gyntaf, sy'n golygu ystyriaethau mewnol ac allanol, gan gynnwys ein gwaith partneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Goblygiadau Ariannol:** Efallai y bydd goblygiadau ariannol nad oes modd eu diwallu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli'n barod ac y bydd arnom angen eu hystyried.

***Argymhelliad 2. Erbyn Ebrill 2013, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun gweithredu sy'n dangos ei blaenoriaethau ar gyfer cyflawni ei pholisïau morol. Dylid cynnwys cynllun gweithredu yn y strategaeth hon ar gyfer cyflawni pob amcan polisi. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cynnwys y manylion canlynol:***
***- canlyniadau disgwyliedig;***
***- camau gweithredu penodol i gyflawni'r canlyniadau disgwyliedig;***
***– amserlen cyflawni, gan gynnwys cerrig milltir allweddol;***
***– cost cyflawni (gan gynnwys ystyriaethau o ran adnoddau);***
***– manylion y ffynonellau ariannol*.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Un o allbynnau cyntaf y rhaglen forol integredig newydd fydd pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith morol a sut a phryd rydym yn bwriadu eu cyflawni. Mae arnom angen cwblhau'r adolygiad i sefydlu'r rhaglen forol newydd, ac rwyf yn disgwyl y byddwn yn gallu darparu rhagor o fanylion yn 2013.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i adnoddau yn ystod y broses o ddatblygu cynllun gweithredu. Dylai Llywodraeth Cymru gael cymorth gan arbenigwyr allanol os yw'n briodol, ond dylai hefyd ystyried a oes angen darparu gwell adnoddau i gyflawni ei rhwymedigaethau statudol ymestynnol.***

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn ystyried adnoddau'n gyffredinol, gan gynnwys ar gyfer Llywodraeth Cymru, fel rhan o'n hadolygiad o'r trefniadau ar gyfer sefydlu'r rhaglen forol newydd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol cyn gynted â phosibl, a dim hwyrach nag Ebrill 2014 ac yn sicrhau ei bod yn cael ei hystyried wrth ddatblygu cynlluniau gofodol morol.***

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd yr adolygiad o'r strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol a'r ffordd orau o'i chyflawni yn rhan anhepgor o'r gwaith ar gynllunio morol; disgwylir datblygu ein cynlluniau morol cenedlaethol cyntaf yn 2015.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid i bennu'r ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru. Os bydd cyfle, dylai weithio mewn partneriaeth â diwydiant, canolfannau ymchwil prifysgolion a'r Trydydd Sector i gydgysylltu gwaith i gasglu data. Rydym yn disgwyl y bydd y ffordd o gyflawni hyn yn cael ei disgrifio mewn ymateb i Argymhelliad 2.***

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y ffordd hon a byddwn yn parhau i wneud hynny. Edrychwch ar yr ymateb i Argymhelliad 2 gyda golwg ar y ffordd o gyflawni hyn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru, wrth baratoi cynlluniau morol ar gyfer 2015, yn sicrhau ei bod yn barod i symud ymlaen â dull cynllunio ar y cyd mewn ardaloedd trawsffiniol a'i bod yn cydweithio â'r Sefydliad Rheoli Morol fel na chaiff y sefydliad hwnnw ei atal rhag dewis rhanbarth sy'n ffinio ar Gymru ar gyfer ei gynllun nesaf. Er mwyn sicrhau ei bod mewn lle i wneud hyn dylai Llywodraeth Cymru geisio gwneud concordat neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r Sefydliad Rheoli Morol cyn gynted â phosibl a dim hwyrach na Rhagfyr 2014.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynllunio ar y cyd gyda'r Sefydliad Rheoli Morol ar gyfer ardaloedd trawsffiniol pan fo'n ymarferol a bydd yn gweithio gyda'r Sefydliad Rheoli Morol i lunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth erbyn dim hwyrach na mis Rhagfyr 2014. Fodd bynnag, efallai na fydd yn ymarferol i ni gynllunio ar y cyd oherwydd ein bod yn defnyddio dull gweithredu cenedlaethol o ran cynllunio morol ac mae Lloegr yn defnyddio dull treigl ar sail rhanbarthau ac efallai na fydd yr amseru yn cyd-daro. Mae'r un sefyllfa yn wir yng nghyswllt yr Alban a Lloegr.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 7. Erbyn diwedd Mawrth 2013, bod Llywodraeth Cymru yn cwblhau ei gwaith ar ymestyn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig presennol. Rydym yn disgwyl gweld manylion am y ffordd o gyflawni hyn yn ei hymateb i Argymhelliad 2 uchod.***

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym ni (gan weithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru) wedi ymrwymo i gwblhau'r gwaith hwn eleni. Ni chaiff ei gwblhau erbyn mis Mawrth gan ein bod yn disgwyl am yr argymhellion terfynol gan adolygiad y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ynghylch y newidiadau i Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig cyffiniol ar y tir, ac rydym yn dymuno ymgynghori yn eu cylch gyda'n gilydd er mwyn integreiddio a lleihau blinder rhanddeiliaid.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad am y ffordd y mae'n bwriadu symud ymlaen â'r argymhellion a wnaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ei adolygiad o reolaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae wedi bod yn ystyried adolygiad Cyngor Cefn Gwlad Cymru ers Gorffennaf 2012 ac rydym yn disgwyl iddi ymateb cyn i Gyngor Cefn Gwlad Cymru gael ei ddiddymu.***

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn bwriadu trafod yr argymhellion a'r camau nesaf gyda Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'n hadolygiad o'r trefniadau i gefnogi'r rhaglen forol integredig newydd.

***Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn Rhan V o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Rydym yn disgwyl iddi bennu dyddiad ar gyfer ei chychwyn wedi iddi ystyried canfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Ebrill.***

**Ymateb: Derbyn**

Rydym eisoes wedi cynllunio hyn ac yn bwriadu ei wneud.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 10. Erbyn 31 Rhagfyr 2013, y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod adroddiad gerbron y Cynulliad o'i gwirfodd sy'n bodloni'r gofyniad yn adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys arfarniad o statws amgylcheddol, llywodraethu a gorfodi mewn ardaloedd morol gwarchodedig presennol.***

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn gweithio i gynhyrchu adroddiad o’r fath y mae angen ei ystyried ynghyd â chanlyniad adroddiad Erthygl 17 i Ewrop ar y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar a’r adolygiad o’r trefniadau rheoli.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy’n bodoli’n barod.

***Argymhelliad 11.***
***(a) Bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y broses ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Morol ar y môr mawr ac yn hwyluso trefniadau ar gyfer mewnbwn gan randdeiliaid Cymru i’r prosesau hyn.***
***(b) Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch y bwriad i greu Parth Cadwraeth Morol yn nyfroedd môr mawr Cymru, bod Llywodraeth Cymru yn ein hysbysu am hyn drwy lythyr ac yn disgrifio’r camau y mae’n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ystyried buddiannau Cymru.***

**Ymateb: Derbyn**

Rydym eisoes wedi hwyluso mewnbwn gan randdeiliaid drwy Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru a Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau, a byddwn yn dal i wneud hynny drwy’r Grŵp Ffocws Rhanddeiliaid a sefydlwyd i gefnogi ein gwaith ychwanegol ar barthau cadwraeth morol.

Mae’r Ysgrifennydd Gwladol wedi ysgrifennu i ymgynghori â mi ynghylch y parth cadwraeth morol arfaethedig yn nyfroedd môr mawr Cymru a byddaf yn ystyried pob effaith bosibl ar Gymru cyn ymateb. Byddaf yn anfon copi o’m hymateb i’r Pwyllgor.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy’n bodoli’n barod.

***Argymhelliad 12. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod arbenigedd a phrofiad yr Uned Caniatadau Morol yn cael eu cadw a'u datblygu ac na fydd y gwasanaeth yn lleihau wrth ei drosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru.***

**Ymateb: Derbyn**

Roedd yr holl staff trwyddedu morol newydd, sydd i gyd â chefndiroedd mewn meysydd caniatadau a/neu forol, wedi dechrau ar eu swyddi ddechrau mis Chwefror ac maent yn cael eu hyfforddi gan yr Uned Caniatadau Morol i sicrhau trosglwyddo llyfn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy’n bodoli’n barod.

***Argymhelliad 13. Bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ei fod yn datblygu darpariaeth ar-lein addas ar gyfer cofrestr gyhoeddus o drwyddedu morol.***

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli'n barod.